
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Llŷn ac Arfordir Eryri
# Llŷn and Snowdonia Coast

## Crwydro Arfordir Cymru
## Coastal Walking Wales




## Llŷn ac Arfordir Eryri

Gyda thirwedd fawreddog Parc Cenedlaethol Eryri yn y cefndir, mae'n hawdd deall pam y mae pobl mor hoff o'r ardal. Mae llwybrau ardderchog i'w cael a byddwch yn gweld pentrefi pysgota bach, aberoedd afonydd a milltiroedd o draethau tywodlyd.

### Uchafbwyntiau

- **Cestyll Caernarfon, Cricieth a Harlech**
  Roedd y cestyll yma, sydd wedi'u lleoli mewn mannau godidog, yn rhan o ymgyrch Edward 1 i oresgyn gogledd Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg.
- **Pen Llŷn**
  Fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae'n werth manteisio ar y cyfle i fwynhau a gwerthfawrogi'r dirwedd hardd a thrawiadol hon.
- **Portmeirion**
  Pentref unigryw a ddyluniwyd gan Syr Clough Williams-Ellis ar ôl cael ei ysbrydoli gan arddull ardal Môr y Canoldir. Ffilmiwyd rhai o olygfeydd y gyfres deledu boblogaidd The Prisoner yma yn ystod 60au'r ganrif ddiwethaf.
- **Aber Afon Mawddach**
  Mae naws bron yn freuddwydiol i aber hardd yr afon, gyda'i golygfeydd ardderchog tuag at Gadair Idris.


Portmeirion


Porthor

## Llŷn and Snowdonia Coast

With the Snowdonia National Park providing a mighty natural backdrop, it is easy to understand why this area is so loved. There are some great walks where you'll discover small fishing villages, estuaries and miles of sandy beaches.

### Highlights

- **Caernarfon, Criccieth and Harlech Castles**
  These spectacularly sited castles were part of Edward I's 13th century campaign to conquer North Wales.
- **Llŷn Peninsula**
  An Area of Outstanding Natural Beauty, this is a stunning yet underexplored landscape.
- **Portmeirion**
  An unique Mediterranean inspired village, designed by Sir Clough Williams-Ellis, famously used as a location for the 60s cult series, The Prisoner.
- **Mawddach Estuary**
  A beautiful, almost dreamlike estuary with magnificent views towards Cadair Idris.

## Y Codau Cefn Gwlad


Yn dilyn cyngor yn y Codau Cefn Gwlad i fanteisio'n llawn ar eich ymweliad:
- parchwch bobl eraill
- diogelwch yr amgylchedd naturiol
- mwynhewch yr awyr agored a chadwch yn ddiogel


Darllenwch y Codau Cefn Gwlad yn www.naturalresources.wales/countryside-codes?lang=cy

## Mwynhewch eich taith gerdded

Ewch i wefan Mentro'n Gall Cymru i ganfod awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i fwynhau antur yr arfordir yn ddiogel. www.adventuresmart.uk/cy/arfordir

Gallwch ail-lenwi eich potel ddŵr yn ystod eich taith. Lawrlwythwch ap Refill i ddod o hyd i'ch Gorsaf Ail-lenwi leol, gan gael dŵr yfed ffres yn ystod eich taith. refill.org.uk


Porth Ceiriad


Abermaw
Barmouth

## Countryside Codes

Follow the advice in the Countryside Codes to get the most out of your visit:
- respect other people
- protect the natural environment
- enjoy the outdoors and stay safe

Read the Countryside Codes at www.naturalresources.wales/countryside-codes

## Enjoy your walk

Visit the Adventure Smart Wales website for some useful hints and tips on how to enjoy coastal adventure safely. www.adventuresmart.uk/coast

You can refill your water bottle along the way. Download the Refill App to find your local Refill Station and get fresh drinking water on the go. refill.org.uk

## Gair i gall

Gellir dod o hyd i fapiau manwl, teithiau undydd ac aml-ddiwrnod, teithiau cylchol, trefnwyr teithiau a chwmnïau cludo bagiau ar www.llwybrarfordircymru.gov.uk

Fe welwch amserlenni cynhwysfawr ar www.cymraeg.traveline.cymru neu ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/cludiantcyhoeddus. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd man cychwyn eich taith gerdded a'ch bod yn cerdded i'ch llety/car, yn lle gwneud fel arall.

Er eich diogelwch, cadwch olwg ar amserau'r llanw gan ddefnyddio'r tablau llanw perthnasol: www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru i ddilyn eich taith gerdded a chael rhagor o wybodaeth. Chwiliwch am Lwybr Arfordir Cymru yn eich siop apiau.

## Top Tips

Detailed maps, one and multi day itineraries, circular walks, tour organisers and baggage carrying companies can be found on www.walescoastpath.gov.uk

You will find comprehensive timetables at www.traveline.cymru or visit www.gwynedd.llyw.cymru/publictransport. We recommend that you use public transport to get you to the start of your walk and walk to your accommodation/car instead of the other way round.

For your safety please keep track of the tides using the relevant tide tables: www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times

Download the Wales Coast Path App to track your walk and get further information. Search for Wales Coast path in your app store.

Sganiwch y cod QR hwn i fynd i'n gwefan
Scan this QR code to go to our website

**www.llwybrarfordircymru.gov.uk**
**www.walescoastpath.gov.uk**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llun clawr / Cover image: Morfa Nefyn
Delweddau © Hawlfraint y Goron (2023) Croeso Cymru Images
© Crown copyright (2023) Visit Wales

Tachwedd / November 2023



Borth y Gest

## Llwybr Arfordir Cymru

Gydag 870 o filltiroedd i'w troedio, mae gan Lwybr Arfordir Cymru rywbeth i'w gynnig i bawb. O archwilio ein treftadaeth a'n diwylliant i gael diwrnod llawn hwyl gyda'r teulu; o roi cynnig ar weithgaredd llawn adrenalin i ymlacio ar draeth bendigedig. Dewch draw i weld beth sy'n gwneud y Llwybr yn gyrchfan awyr agored heb ei ail ac i weld pa mor hawdd yw hi i wneud y Llwybr yn rhan o'ch bywyd bob dydd neu eich gwyliau. I gael mwy o awgrymiadau ynglŷn â'r pethau y gallwch eu gweld a'u gwneud ar y Llwybr, ewch i **www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

## Wales Coast Path

With 870 miles to explore, the Wales Coast Path has something for everyone. From exploring our heritage and culture to having a fun day out with the family, or from trying one of Wales's coastal adrenalin activities to putting your feet upon one of our gorgeous beaches. Dip your toe in and find out why this is such a fantastic outdoor destination and discover just how easy it is to fit the Wales Coast Path in to your daily life or your holiday planning. For more suggestions on what you can see and do on the Wales Coast Path, please visit **www.walescoastpath.gov.uk**

## Teithiau cerdded

**Nefyn i Borth Dinllaen (4.5km / 2.75 milltir)**

Gan sefyll ar benrhyn creigiog Porth Dinllaen gallwch edmygu golygfeydd i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd arfordir gogleddol Pen Llŷn. Gall hwn fod yn gyfle da i chi weld morloi'n nofio'n agos at y lan.

**Porthor i Aberdaron (15km / 9.25 milltir)**

Wrth gerdded i gyfeiriad Aberdaron fe welwch Ynys Enlli, cyrchfan ar un adeg i bererinion. Yn ôl pob sôn, roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfwerth ag un â Rhufain. Gallwch glywed y tywod ym Mhorthor yn chwibanu weithiau wrth i chi gerdded drosto!

**Cricieth i Borthmadog (10.5km / 6.5 milltir)**

Dechreuwch eich taith yng Nghricieth lle gallwch archwilio'r castell rhyfeddol cyn cerdded i'r dwyrain ar hyd yr arfordir ysblennydd i gyfeiriad Porthmadog. Gallwch oedi yn ystod y daith ar draeth enwog a hardd Morfa Bychan.

**Morfa Harlech a Morfa Dyffryn (rhwng Harlech a Thalybont) (17km / 12 milltir)**

Dau draeth godidog yw'r rhain lle gallwch gerdded am filltiroedd, ac mae digon o gyfleoedd ar hyd y daith i brynu bwyd a diod! Gallwch gwtogi'r daith mewn sawl man drwy ddal trên ar reilffordd arfordirol y Cambrian sydd ag amryw o orsafoedd mewn mannau cyfleus.

**Abermaw i'r Friog (6km / 3.75 milltir)**

Taith gerdded rwydd iawn yw hon ar draws aber Afon Mawddach, ac mae cynnig golygfeydd ardderchog i fyny'r aber hyd at fynydd mawreddog Cadair Idris. Byddai'r daith yn fwy hamddenol byth drwy ddal y trên yn ôl.

**Aberdyfi i Fachynlleth (19km / 11 milltir)**

Mae llwybr yr arfordir yn troi i mewn i'r tir yma, trwy goedwigoedd a heibio Llyn Barfog a Carn March Arthur. Mae'r golygfeydd ardderchog o'r mynyddoedd yn dra gwahanol i'r rhai ar yr arfordir.

Beth am gofnodi eich taith ar hyd Llwybr Arfordir Cymru?

## Suggested walks

**Nefyn to Porth Dinllaen (4.5km / 2.75 miles)**

From the rocky promontory of Porth Dinllaen you can admire views to the east and west along the Llŷn Peninsula's northern coast. You have a good chance of spotting seals close to shore.

**Porthor (Whistling Sands) to Aberdaron (15km / 9.25 miles)**

As you walk toward Aberdaron you will see Bardsey Island, once a destination for pilgrims. According to legend, three visits to Bardsey was equivalent to one visit to Rome. The sands at Porthor often 'whistle' when you walk on them!

**Criccieth to Porthmadog (10.5km / 6.5 miles)**

Begin your walk in Criccieth where you can explore the wonderful Criccieth Castle before heading east along this glorious coastline to Porthmadog. Along the way, you'll find the famous and picturesque Black Rock Sands.

**Morfa Harlech and Morfa Dyffryn (Harlech – Talybont) (17km / 12 miles)**

These two stunning beaches offer miles of walking opportunities, with plenty of opportunities for refreshment along the way! You can shorten this walk in several places by catching the Cambrian Coast Railway, which has stations at frequent intervals.

**Barmouth to Fairbourne (6km / 3.75 miles)**

With spectacular views up the Mawddach Estuary with Cadair Idris looming in the distance, this is an unchallenging walk over the estuary. It is possible to catch the train back for an even more leisurely outing.

**Aberdovey to Machynlleth (19km / 11 miles)**

Here the coast path takes an inland detour through forests and past Llyn Barfog and Carn March Arthur. The spectacular mountain scenery makes an interesting contrast to the coast.

Why not record your Wales Coast Path journey?

## Pasbort | Passport

Llŷn ac Arfordir Eryri
Llŷn and Snowdonia Coast

| Llwybrau \| Paths | Milltir Miles | km | Dyddiad Date |
|---|---|---|---|
| Pont Grog y Borth (ochr Bangor) /Menai Suspension Bridge (Bangor side)> Felinheli | 4 | 6 | ○ |
| Felinheli > Caernarfon | 4 | 6 | ○ |
| Caernarfon > Dinas Dinlle | 8 | 13 | ○ |
| Dinas Dinlle > Clynnog Fawr | 5 | 8 | ○ |
| Clynnog Fawr > Trefor | 3 | 5 | ○ |
| Trefor > Llithfaen | 4 | 6 | ○ |
| Llithfaen > Nefyn | 6 | 10 | ○ |
| Nefyn > Tudweiliog | 9 | 14 | ○ |
| Tudweiliog > Porthor | 8 | 13 | ○ |
| Porthor > Aberdaron | 9 | 14 | ○ |
| Aberdaron > Plas yn Rhiw | 5 | 8 | ○ |
| Plas yn Rhiw > Pentywyn | 6 | 10 | ○ |
| Pentywyn > Abersoch | 9 | 14 | ○ |
| Abersoch > Llanbedrog | 5 | 8 | ○ |
| Llanbedrog > Pwllheli | 4 | 6 | ○ |
| Pwllheli > Llanystumdwy | 9 | 14 | ○ |
| Llanystumdwy > Criccieth | 3 | 5 | ○ |
| Criccieth > Porthmadog | 6 | 10 | ○ |
| Porthmadog > Penrhyndeudraeth | 4 | 6 | ○ |
| Penrhyndeudraeth > Ynys | 4 | 6 | ○ |
| Ynys > Harlech | 3 | 5 | ○ |
| Harlech > Llanbedr | 5 | 8 | ○ |
| Llanbedr > Talybont | 7 | 11 | ○ |
| Talybont > Bermo / Barmouth | 5 | 8 | ○ |
| Bermo / Barmouth > Fairbourne | 4 | 6 | ○ |
| Fairborne > Llwyngwril | 4 | 6 | ○ |
| Llwyngwril > Tywyn | 8 | 13 | ○ |
| Tywyn > Aberdyfi / Aberdovey | 4 | 6 | ○ |
| Aberdyfi / Aberdovey > Pennal | 8 | 13 | ○ |
| Pennal > Machynlleth | 4 | 6 | ○ |

Ewch i'n tudalen Pasbortau **www.llwybrarfordircymru.gov.uk/pasbort** i gael manylion am dystysgrifau cwblhau a phethau i gofio eich taith.

Visit our Passport page **www.walescoastpath.gov.uk/passport** for details about completion certificates and mementos to commemorate your journey.

